**Maria Mulcahy, Swyddog Datblygu De Cymru**

Helo, fy enw i yw Maria Mulcahy ac ymunais ag Un Llais Cymru fel Swyddog Datblygu De Cymru ar 1 Mawrth 2022. Rwy'n byw gyda fy nheulu mewn pentref bach ychydig y tu allan i Gasnewydd, De Cymru. Yn ystod fy ngyrfa waith rwyf wedi gweithio yn y sectorau preifat a chyhoeddus. I ddechrau, bûm yn gweithio am nifer o flynyddoedd yn y sector yswiriant cyn ymuno ag Awdurdod Lleol lle bûm yn gweithio ym maes yswiriant a rheoli risg.

Gadewais yr Awdurdod i ganolbwyntio ar faterion teuluol cyn gweithio yn y gymuned leol fel clerc rhan amser i gyngor cymuned ac elusen ar wahân. Tra'n parhau i weithio fel clerc, rwyf wedi cwblhau'r cwrs ILCA (Cyflwyniad i Weinyddu Cynghorau Lleol) ac yn fwy diweddar wedi cwblhau fy nghymhwyster CiLCA (Tystysgrif mewn Gweinyddu Cynghorau Lleol).

Mae wedi bod yn amser pwysig i ymuno ag Un Llais Cymru oherwydd y newidiadau sy’n cael eu cyflwyno gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy’n darparu ar gyfer sefydlu fframwaith newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, perfformiad, a llywodraethu. Bydd hyn yn amlwg yn her wrth addasu i'r newidiadau i'r fframwaith newydd, a bydd Un Llais Cymru yn arwain ar y newidiadau hyn gyda Chynghorau Cymuned a Thref. Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi drwy gydol fy ngwaith.